Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Garreg

**Llanfrothen**
**Penrhyndeudraeth**
**Gwynedd**
**LL48 6LJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Y Garreg

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Y Garreg |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Primary |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 19 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 16 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yw 23.0%) | 19.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yw 16.1%) | 21.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 31.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 04/01/2013 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 07/10/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 30/01/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae hon yn ysgol gartrefol a chymhwysol sy'n hyrwyddo Cymreictod a lles disgyblion yn effeithiol. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion y disgyblion ac maent yn rhoi gofal ac arweiniad cadarn iddynt. Mae'r athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau ysgogol a difyr sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn effeithiol. Er hyn, ar adegau, mae tueddiad i athrawon orgyfarwyddo'r dysgu ac nid yw'r lefel her bob amser yn addas ar gyfer diwallu anghenion bob disgybl.

Mae ymddygiad y disgyblion yn gadarn dda ac maent yn dangos lefel uchel o gymhelliant a diddordeb yn eu gwaith. Maent yn barod iawn i gyfrannu eu syniadau a thrafod eu barn yn aeddfed gyda'u cyfoedion. Maent yn dangos parch at ei gilydd a'r staff ac yn barod i estyn cymorth i eraill, pan fo angen. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn perchnogi'r dysgu ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau dros gyfnod. Maent yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a gânt i gyfrannu at yr hyn yr hoffent ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Er hyn, nid yw'r disgyblion bob amser yn cael cyfleoedd i gymryd rhan flaenllaw yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ar draws yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth strategol glir i'r ysgol. Mae hi'n cydweithio'n agos â llywodraethwyr a staff sydd yn ei chefnogi'n effeithiol i bennu blaenoriaethau gwella. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o brif gryfderau a meysydd gwella'r ysgol. Gyda'i gilydd, maent yn gweithio'n ddiwyd i symud y dysgu ac addysgu ymlaen yn effeithiol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau lefel her briodol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau hyd orau eu gallu

A2 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â rôl arweinyddol, er mwyn cyfrannu at waith a bywyd ehangach yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau sylfaenol llawer o'r disgyblion yn briodol ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cynhyrchu gwaith o safon uchel.

Ym mlynyddoedd is yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n glir a chyfforddus yn y Gymraeg. Maent yn defnyddio ystod addas o eirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn frwdfrydig wrth drafod o fewn ardaloedd dysgu ac yn hyderus wrth sgwrsio am eu profiadau a diddordebau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau staff a chyfraniadau ei gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn adnabod seiniau a llythrennau ac yn adeiladu dealltwriaeth gadarn o eirfa sylfaenol. Mae hyn yn eu galluogi i ddarllen testunau addas mewn modd hyderus. Erbyn diwedd y Blwyddyn 2, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion drafod cynnwys testun yn ystyrlon a synhwyrol, gan gyfeirio at y digwyddiadau a chymeriadau o fewn y llyfrau maent yn eu darllen.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n gadarn. Maent yn ysgrifennu drwy ddefnyddio strwythur brawddegau syml ac yn cynnwys atalnodi addas i'r testun. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio berfau ac ansoddeiriau yn ddeallus i gyfoethogi testun, er enghraifft wrth greu cerdd synhwyrau Nadoligaidd.

Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau rhif syml yn gywir. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o rifau i fyny at 100 ac yn llwyddo i adio a thynnu rhifau 2 digid yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth gwblhau tablau a graffiau, er enghraifft i ddangos data am benblwyddi eu cyfoedion. Maent yn llwyddo i gymhwyso eu medrau rhif ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth greu patrymau ailadroddus fel rhan o'u gwaith yn yr ysgol goedwig.

Mae medrau digidol disgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu'n dda. Maent yn defnyddio ystod o feddalwedd ac apiau yn hyderus i ddatblygu eu medrau motor mân a medrau llythrennedd a rhifedd. Fel rhan o'u thema Gofalu Am Y Byd, maent yn rheoli tegan rhaglenadwy yn fedrus wrth iddo archwilio dyfnderoedd y môr.

Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn cyfathrebu'n fedrus mewn gwersi a gweithgareddau yn y ddwy iaith. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn defnyddio geirfa gyfoethog wrth drafod yn ffurfiol ac anffurfiol mewn sefyllfaoedd amrywiol. Maent yn barod i fynegi eu barn gan ei chefnogi drwy resymu'n ddilys. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn addasu eu sgwrs yn effeithiol i gynulleidfaoedd amrywiol, er enghraifft wrth ysgrifennu sgriptiau a pherfformio drama fel rhan o'u thema Joseff a'i Gôt Amryliw.

Ym mlynyddoedd uwch yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn gynyddol hyderus. Maent yn darllen amrywiaeth o destunau gan ynganu geiriau anghyfarwydd yn gywir, gan amlaf. Maent yn trafod y llyfrau yn effeithiol, gan gyfeirio at y cynnwys a disgrifio'r prif gymeriadau. Gallant gywain gwybodaeth i gyfoethogi eu gwaith o wahanol ffynhonellau, er enghraifft wrth ddod o hyd i wybodaeth am sut i gadw'n iach.

Mae'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n ddeallus at wahanol ddibenion ar draws y ddwy iaith. Mae llawysgrifen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn daclus a dangosant barch wrth gofnodi eu gwaith yn eu llyfrau. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o nodweddion gwahanol ffurfiau ysgrifennu. Maent yn trefnu eu gwaith i mewn i baragraffau synhwyrol gan ddefnyddio ystod dda o atalnodi. Maent yn defnyddio cystrawennau amrywiol yn hyderus gyda defnydd cynyddol gywir o ansoddeiriau a disgrifiadau i gyfoethogi'r testun. Mae'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu ar draws gwahanol feysydd y cwricwlwm yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn ysgrifennu bywgraffiad cynhwysfawr am Greta Thunberg fel rhan o'u gwaith ar warchod yr amgylchedd.

Ym mlynyddoedd uwch yr ysgol, mae medrau rhif y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae ganddynt afael gadarn ar waith rhif, gan symleiddio ffracsiynau a defnyddio degolion yn hyderus. Mae ganddynt afael gadarn ar waith dehongli data a dealltwriaeth dda o siâp a gofod, er enghraifft wrth ddod o hyd i arwynebedd a pherimedr siapiau safonol ac ansafonol. Mae llawer o ddisgyblion yn llwyddo i gymhwyso eu medrau rhif ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gasglu gwybodaeth a dadansoddi arbrawf am guriad y galon.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn dangos datblygiad cadarnhaol yn eu medrau digidol. Maent yn defnyddio'r rhyngrwyd yn hyderus i chwilio am wybodaeth ac yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus i gyflwyno eu canfyddiadau, er enghraifft i hyrwyddo pwysigrwydd defnyddio olew palmwydd cynaliadwy.

Mae medrau creadigol bron pob disgybl yn datblygu'n gelfydd. Er enghraifft, ym mlynyddoedd is yr ysgol, maent yn mwynhau perfformio dramâu ar y llwyfan yn yr ardal tu allan. Mae hyn yn effeithiol wrth ddatblygu eu medrau hunanhyder a'u medrau llafar Cymraeg. Fel rhan o weithgareddau Eisteddfod yr Urdd, mae'r disgyblion hŷn yn mwynhau defnyddio ystod o offer a deunyddiau i greu celf ddeniadol sy'n cael ei harddangos ar draws yr ysgol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn gymuned dysgu gefnogol a chynhwysol. Maent yn dangos balchder yn eu hysgol ac yn datblygu'n ddysgwyr hyderus a chreadigol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu lles disgyblion yn ganolog i weledigaeth yr ysgol. Mae'r disgyblion hŷn yn cymryd gofal o'r rhai iau yn naturiol ac yn aeddfed. Mae'r disgyblion yn gwrtais a meddylgar. Maent yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos parch a gofal at eu cyfoedion ac ymwelwyr. Mae hyn yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn datblygu'n ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig. Maent yn cydweithio'n effeithiol ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig. Maent yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn gweithio'n gyson dda fel unigolion, parau ac mewn grwpiau bychain. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn gwneud defnydd effeithiol o dechnegau meddwl penodol wrth wynebu heriau yn eu gwaith. Mae hyn yn eu galluogi i ddyfalbarhau a datrys problemau yn effeithiol. Mae gan bron bob disgybl ymagweddau positif at gadw'n iach. Maent yn dangos boddhad wrth ymgymryd â gweithgareddau corfforol gan gynnwys gemau buarth ysgogol yn ystod amseroedd egwyl. Trwy eu themâu, mae gan bron bob un ddealltwriaeth aeddfed o bwysigrwydd yfed a bwyta'n iach.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar beth maent yn dymuno ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Mae hyn yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith yn effeithiol. O ganlyniad, maent yn dangos lefelau da o gymhelliant a diddordeb yn eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn ymwybodol o'u targedau personol a'r hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang, moesegol a gwybodus. Mae ganddynt synnwyr cryf o degwch a chydraddoldeb; er enghraifft, penderfynodd y disgyblion godi arian er mwyn adeiladu ffynnon dŵr glân i drigolion mewn gwlad dlawd. Yn ogystal, codwyd arian er mwyn noddi addysg plentyn yn Nigeria.

Mae'r disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau mentergarwch yn flynyddol. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi cydweithio'n effeithiol ag aelod o'r gymuned i greu busnes wrth ddylunio, creu a gwerthu gemwaith i rieni a thrigolion yr ardal. Trwy'r cyfleoedd cyfoethog hyn, mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol a datrys problemau yn effeithiol.

Yn ddiweddar, mae disgyblion wedi dechrau cyfrannu at ychydig o elfennau o waith yr ysgol trwy'r cyngor ysgol, er enghraifft wrth benderfynu ar ba wobr y dylent ei derbyn ar ôl ennill tocynnau gwobr iaith. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r disgyblion yn chwarae rôl ddigon blaengar wrth wneud penderfyniadau am y ddarpariaeth ehangach a gynigir gan yr ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae perthynas weithio agos a chefnogol iawn rhwng y staff a disgyblion. Mae'r cyd-berthynas hon yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r athrawon yn meithrin amgylchedd ddysgu gynhwysol. O ganlyniad, mae ymddygiad ac agweddau bron bob un disgybl tuag at eu dysgu yn gadarnhaol. Mae'r disgyblion yn gwrtais ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch.

Mae staff yn cydweithio'n bwrpasol i gyflwyno cwricwlwm ysgogol a diddorol sy'n diwallu gofynion y Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol. Maent yn cynllunio'n drwyadl i ddarparu profiadau buddiol sy'n cwmpasu pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad. O fewn eu thema dymhorol, mae disgyblion is yr ysgol yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth ac ystod o fedrau trwy weithgareddau addysgol yn yr ardal goedwig. Er enghraifft, maent yn creu celf trwy ddefnyddio ystod o ddeunyddiau naturiol. Maent yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg wrth gydweithio â'u cyfoedion. Yn y blynyddoedd uwch, mae'r staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn fwriadus. Er enghraifft, fel rhan o'u heriau wythnosol, mae disgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethog i ysgrifennu at wahanol bwrpasau. Mae hyn yn cynnwys llythyr ffurfiol at y gweinidog newid hinsawdd yn datgan eu pryder am lefelau carbon yn yr amgylchedd. Mae'r athrawon yn sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu eu medrau rhifedd a digidol yn gyson o fewn yr heriau wythnosol.

Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fod yn rhan o'r broses cynllunio cyfeiriad eu dysgu. Mae'r waliau cynllunio ymhob dosbarth yn ysgogi'r disgyblion i gyfrannu eu syniadau ar yr hyn yr hoffent eu canfod o fewn eu themâu

tymhorol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn perchnogi'r themâu ac yn ymroi'n frwdfrydig i'w tasgau.

Mae safon yr addysgu yn gyson dda. Mae gan yr athrawon wybodaeth gadarn ar draws gwahanol feysydd y cwricwlwm. Maent yn rôl fodelau iaith effeithiol ac yn annog y disgyblion i wella eu medrau llafar Cymraeg yn gyson. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau holi treiddgar sydd yn effeithiol wrth adalw dysgu blaenorol a llywio cyfeiriad y dysgu yn bwrpasol. Maent yn cynnig adborth adeiladol sy'n cefnogi'r disgyblion i fyfyrio ar eu tasgau a gwella eu gwaith yn hyderus. Maent yn rhoi cyfleoedd buddiol i'r disgyblion weithio'n annibynnol, fesul pâr ac o fewn grwpiau bychan. Fodd bynnag, ar adegau, mae oedolion yn gorgyfarwyddo'r dysgu ac nid yw'r lefel her bob amser yn addas ar gyfer diwallu anghenion bob disgybl.

Islaw'r ysgol, mae'r athrawes yn cynllunio cyfleoedd ysgogol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn yr ardaloedd allanol. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd pwrpasol i ddatblygu eu medrau llafaredd a rhifedd trwy greu patrymau gan ddefnyddio deunyddiau naturiol a dynol. Yn ogystal, mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau yn yr ardal leol er mwyn ennyn balchder y disgyblion yn eu cymuned. Enghraifft dda o hyn yw cyfraniad y disgyblion i ymgyrch Gwanwyn Glân Cymru ble aethpwyd o gwmpas Llanfrothen yn casglu sbwriel.

Mae'r athrawon yn cynllunio ymweliadau addysgol ysgogol i gyfoethogi ac atgyfnerthu'r dysgu o fewn y dosbarth. Er enghraifft, fel rhan o thema Y Celtiaid, mae holl ddisgyblion yr ysgol yn ymweld â thai crwn Celtaidd Melin Llynon. Maent hefyd yn cael budd o deithiau i wahanol ganolfannau preswyl. Trwy'r ymweliadau hyn, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethog i ddwysàu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a theuluol sy'n darparu gofal, cymorth ac arweiniad cadarn i'r disgyblion. Mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng y staff a disgyblion yn nodwedd arbennig o'r ysgol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad da a chwrteisi bron bob un o'r disgyblion a'u hymagwedd gadarnhaol at ddysgu ac at eu hysgol.

Mae gan yr ysgol dechnegau effeithiol i ymateb i bryderon iechyd meddwl a chymdeithasol disgyblion. Mae'r defnydd o deganau anwes, corneli ymdawelu, a sesiynau amser cylch wythnosol yn effeithiol wrth sicrhau bod bob disgybl yn cael cyfle i drafod yr hyn sy'n eu pryderu. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau corfforol. Trwy sesiynau ymarfer corff wythnosol a'r gemau ac adnoddau buarth a ddarperir i ddisgyblion yn ystod amseroedd egwyl, mae disgyblion yn datblygu eu medrau taflu a dal yn effeithiol.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau cadarn i adnabod a monitro unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion ychwanegol yn gynnar. Mae staff yn cydweithio â rhieni i greu cynlluniau priodol i gefnogi datblygiad medrau'r disgyblion hyn. Mae cynorthwywyr yn cefnogi anghenion unigol disgyblion yn effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Er hyn, ar adegau, nid yw'r tasgau a gynllunnir mewn gwersi bob tro'n ymateb yn briodol i anghenion bob un disgybl.

Darperir nifer o ddigwyddiadau ac ymweliadau cyfoethog i'r disgyblion sy'n hybu eu dealltwriaeth o'u diwylliant a'u cymuned yn llwyddiannus. Er enghraifft, fel rhan o

thema ‘O Dan ein Traed’, mae athrawon yn trefnu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymweld â mannau hanesyddol lleol, gan gynnwys tai crwm Celtaidd Melin Llynon a chwarel Llanfair. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a mynegiannol disgyblion yn effeithiol. Mae’r gweithdy celf diweddar, lle cafodd disgyblion gyfleoedd i weithio gydag arlunydd lleol i argraffu a chreu bagiau, yn enghraifft dda o hyn.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn sicrhau cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion feithrin dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cynaliadwyedd. Er enghraifft, fel rhan o’u themâu, mae’r disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o ynni adnewyddadwy ac effaith ein hôl troed carbon ar yr hinsawdd. Fel rhan o’r gwaith, mae’r athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i’r disgyblion ddysgu am waith gwahanol elusennau. Er enghraifft, maent yn codi ymwybyddiaeth o’r gefnogaeth a roddir gan y Groes Goch i bobl sy’n dioddef o ganlyniad i drychinebau ar draws y byd. Mae hyn yn effeithiol wrth godi ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion gofalgar a chydwybodol.

Mae’r staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion leisio eu barn am yr hyn yr hoffent ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Er hyn, nid yw’r staff yn cynnig digon o gyfleodd cyson i ddisgyblion leisio eu barn am faterion ehangach yr ysgol. O ganlyniad, nid yw’r disgyblion yn cael cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu eu rôl fel arweinwyr.

Mae trefniadau’r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae gan y staff ymwybyddiaeth gadarn o brosesau diogelu ac mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i unrhyw achosion unigol, gan gydweithio ag asiantaethau eraill yn effeithiol, lle bo’n briodol. Mae’r staff yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd diogelwch ar y we a diogelwch y ffordd. Mae gweithdrefnau’r ysgol ar gyfer sicrhau presenoldeb cyson disgyblion yn gadarn. Mae’r staff yn cadw cofnod o unrhyw absenoldeb ac yn cysylltu â rhieni yn amserol i drafod unrhyw bryderon ynglŷn â phresenoldeb eu plant.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn wedi ei seilio ar sicrhau bod bob un disgybl yn datblygu i fod yn ddinasyddion ddwyieithog hyderus a hapus sy’n chwarae rhan lawn yn y gymdeithas.

Mae ymdeimlad cartrefol yn bodoli yn yr ysgol. Caiff y pennaeth ei chefnogi’n effeithiol gan dîm bach o staff sy’n cydweithio’n effeithiol â’i gilydd er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus. Mae’r holl staff yn cydweithio’n ddiwyd i sicrhau bod ethos cadarn o ddiogelu yn bodoli yn yr ysgol.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o’r staff a’r disgyblion. Mae disgwyl i’r disgyblion ddangos parch ac agweddau positif at eu dysgu. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad clir ar waith i staff. Mae ganddynt dargedau gwella addas sydd yn seiliedig ar y blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ac sydd yn bersonol i’w anghenion datblygiadol unigol. Mae’r staff yn cael cyfleoedd cyson i fynychu hyfforddiant sy’n ateb gofynion eu datblygiad proffesiynol. Maent yn gweithio’n agos â staff ysgolion y clwstwr i rannu arbenigedd, er enghraifft wrth gydweithio’n effeithiol i godi safon iaith lafar a darllen Cymraeg disgyblion yn dilyn y pandemig. Yn ddiweddar, maent wedi mynychu hyfforddiant pwrpasol sydd wedi datblygu eu medrau cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus.

Mae prosesau hunanwerthuso’r ysgol yn gadarn. Mae’r pennaeth a’r staff yn arsylwi gwersi ei gilydd yn gyson gan roi adborth adeiladol ar beth sy’n gweithio’n dda a beth sydd angen ei wella o fewn y gwersi. Maent yn craffu ar waith disgyblion yn dymhorol gan roi ffocws pendant ar safon gwaith disgyblion a gwella’r ddarpariaeth. Mae’r pennaeth yn cynnal trafodaethau buddiol â’r staff yn dymhorol. Ar y cyd, maent yn adnabod y blaenoriaethau i’w cynnwys yn y cynllun gwella yn llwyddiannus ac y neu gwerthuso’n amserol gan addasu’r ddarpariaeth, pan fo angen.

Mae’r corff llywodraethol yn cyfarfod yn dymhorol ac yn cynnal trafodaethau buddiol am flaenoriaethau’r ysgol a gwerthuso effaith unrhyw weithgarwch yn y cynllun datblygu. Mae aelodau o’r corff llywodraethol yn ymweld â’r ysgol yn gyson, gan graffu ar waith a chynnal cyfarfodydd â’r disgyblion a staff. O ganlyniad, mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth gadarn o brif gryfderau’r ysgol a’i meysydd i’w gwella. Maent yn adrodd eu canfyddiadau yn ôl i’r corff llawn gan herio pan fydd yn briodol. Maent yn manteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, er enghraifft trwy annog disgyblion i yfed dŵr a bwyta ffrwyth yn ystod y dydd.

Un o nodweddion cryf yr ysgol yw’r berthynas glòs ac adeiladol sy’n bodoli gyda’r rhieni a’r gymuned leol. Mae’r pennaeth yn cynnwys barn rhieni wrth wneud penderfyniadau strategol am y ddarpariaeth a gynigir i’r disgyblion. Mae rhieni’n cael cyfleoedd addas i ddylanwadu ar waith yr ysgol. Er enghraifft, bu iddynt lenwi holidaur yn ddiweddar i gynnig syniadau am gynnwys cwricwlwm yr ysgol. Mae’r ysgol y gwneud defnydd da o’r gymuned i ehangu’r ddarpariaeth a’r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion. Fel rhan o’r prosiectau mentergarwch, mae’r disgyblion yn cael cyfleoedd i weithio gyda busnesau lleol. Mae hyn yn effeithiol wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o rôl a phwysigrwydd busnesau bach mewn cymuned wledig.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/04/2023